

Bydd pob cwrs yn cael ei gynnal drwy Microsoft Teams (gellir archebu lleoedd drwy e-bostio governors@valeofglamorgan.gov.uk)

Dyddiad ac Amser	Sesiwn	Disgrifiad o'r cwrs
Mawrth 4 Hyd 10.00-11.00am	Cyflwyniad i'r Pecyn Cymorth Hunanwerthuso Cyrff Llywodraethu	Mae dogfen Hunanwerthuso Cyrff Llywodraethu Consortiwm Canolbarth y De (CCD) wedi'i chynhyrchu fel offeryn i alluogi Cyrff Llywodraethu i adolygu eu perfformiad o dan wahanol feysydd llywodraethu, gyda datganiadau defnyddiol i'w cynorthwyo i wneud asesiadau cywir. Ei diben yw galluogi Cyrff Llywodraethu i wneud asesiadau cywir o ba mor dda y maen nhw'n arwain ac yn rheoli eu hysgol, mewn partneriaeth â'r Pennaeth a'r Uwch Dîm Arwain. Fe'i cynlluniwyd i fod yn ddogfen ysgafn a hawdd ei defnyddio ond ar yr un pryd mae'n galluogi Cyrff Llywodraethu i fyfyrion gywir ar eu sefyllfa ar hyn o bryd a nodi meysydd ar gyfer datblygu. Gall weithredu fel meincnod ar gyfer adolygiadau yn y dyfodol i fesur gwelliant mewn unrhyw feysydd a nodwyd i'w datblygu. Mae'r ddogfen ryngweithiol hon yn offeryn defnyddiol i'r rhai sydd am werthuso eu gwaith. Bydd y sesiwn yn caniatáu i lywodraethwyr ymgyfarwyddo â'r pecyn cymorth a chynnig awgrymiadau o ran ei weithredu.
Mawrth 4 Hyd 4.00-5.00pm	Holi ac Ateb Cwricwlwm i Gymru	Mae gan lywodraethwyr rôl allweddol i'w chwarae o ran cefnogi datblygiad cwricwlwm. Mae gan gyrff llywodraethu gyfrifoldebau cyfreithiol am gwricwlwm ysgol. Bydd angen i lywodraethwyr wybod a deall sut y gallant gefnogi cyd-adeiladu. Bydd y sesiwn ddiweddar hon yn cefnogi llywodraethwyr i: <ul style="list-style-type: none"> • Ddeall sut bydd y Cwricwlwm i Gymru a'r diwygiadau galluogi yn effeithio ar rôl llywodraethwyr • Deall hanfodion fframwaith y Cwricwlwm i Gymru • Dod yn ymwybodol o'r dogfennau a'r canllawiau polisi allweddol a sut maen nhw'n cefnogi ysgolion • Gallu gofyn cwestiynau effeithiol a chefnogol fel llywodraethwyr ynglŷn â pharatoadau eich ysgol
Iau 6 Hyd 4.00-5.00pm	Galluogi Tegwch a Rhagoriaeth	Mae dogfen Galluogi Tegwch a Rhagoriaeth CCD wedi'i chyhoeddi a'i rhyddhau'n ddiweddar i bob ysgol yn rhanbarth CCD. Mae'r ddogfen yn cynnig dulliau clir o gefnogi ysgolion ledled rhanbarth CCD i wireddu'r genhadaeth genedlaethol o sicrhau 'ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo i ragoriaeth, tegwch a lles'. Bydd y sesiwn ddiweddar hon yn: <ul style="list-style-type: none"> • Rhoi gwybod i lywodraethwyr sut mae tegwch a rhagoriaeth mewn ysgolion yn edrych ac yn cyfleu pwysigrwydd sicrhau bod pob ysgol yn cyflawni hyn. • Caniatáu i lywodraethwyr ymgyfarwyddo â'r ddogfen 'Tegwch a Rhagoriaeth' a'i defnydd fel dogfen allweddol i ysgolion o ran gweithgareddau gwella ysgol. • Hysbysu llywodraethwyr am eu rolau a'u cyfrifoldebau o ran cefnogi cyfeiriad strategol ysgolion o ran sicrhau tegwch a rhagoriaeth a gwireddu'r uchelgais genedlaethol. • Darparu gwybodaeth gan Arweinydd Strategol CCD ar gyfer Tegwch a Lles ynghylch datblygiadau ar lefel genedlaethol a rhanbarthol.

lau 13 Hyd 10.00- 11.00am	Lles	Bydd y sesiwn hon yn canolbwyntio ar y fframwaith newydd ar gyfer ymgorffori'r dull gweithredu ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl a lles. Bydd yn archwilio'r peilot sydd wedi bod yn digwydd yn yr ysgolion ar draws y 2 fwrdd iechyd a sut y bydd hyn yn gyfrifoldeb statudol i ysgolion.
lau 13 Hyd 4.00- 5.00pm	Lles	Bydd y sesiwn hon yn canolbwyntio ar y fframwaith newydd ar gyfer ymgorffori'r dull gweithredu ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl a lles. Bydd yn archwilio'r peilot sydd wedi bod yn digwydd yn yr ysgolion ar draws y 2 fwrdd iechyd a sut y bydd hyn yn gyfrifoldeb statudol i ysgolion.
Mawrth 18 Hyd 10.00- 11.00am	Holi ac Ateb Cwricwlwm i Gymru	Mae gan lywodraethwyr rôl allweddol i'w chwarae o ran cefnogi datblygiad cwricwlwm. Mae gan gyrff llywodraethu gyfrifoldebau cyfreithiol am gwricwlwm ysgol. Bydd angen i lywodraethwyr wybod a deall sut y gallant gefnogi cyd-adeiladu. Bydd y sesiwn ddiweddar hon yn cefnogi llywodraethwyr i: <ul style="list-style-type: none"> • Ddeall sut bydd y Cwricwlwm i Gymru a'r diwygiadau galluogi yn effeithio ar rôl llywodraethwyr • Deall hanfodion fframwaith y Cwricwlwm i Gymru • Dod yn ymwybodol o'r dogfennau a'r canllawiau polisi allweddol a sut maen nhw'n cefnogi ysgolion • Gallu gofyn cwestiynau effeithiol a chefnogol fel llywodraethwyr ynglŷn â pharatoadau eich ysgol
Mawrth 18 Hyd 4.00- 6.00pm	Rhaglen hyfforddi ragarweiniol ar gyfer llywodraethwyr	Bydd y sesiwn hon yn eich cyflwyno i ystod o sgiliau hyfforddi a strategaethau a fydd yn cyfoethogi ac yn llywio'r sgysiaau rydych yn eu cael gyda'ch uwch dîm arwain ac aelodau eraill o gymuned yr ysgol. Erbyn diwedd y sesiwn bydd llywodraethwyr yn: <ul style="list-style-type: none"> • Deall yr hyn sy'n debyg ac yn wahanol rhwng hyfforddi a mentora • Cydnabod nodweddion llywodraethu llai effeithiol • Gallu gwrando er mwyn deall • Defnyddio sgiliau holi effeithiol • Defnyddio model hyfforddi OSCAR • Defnyddio sgiliau mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn
Llun 24 Hyd 11.00am- 12.00pm	Rheoli Perfformiad i Benaethiaid	Bydd y cyflwyniad ar-lein hwn yn amlinellu'r trefniadau y mae angen eu rhoi ar waith i alluogi cyrff llywodraethu ysgolion i reoli perfformiad Penediaid. Dylai cyrff llywodraethu gynnwys o leiaf 2 lywodraethwr sydd wedi'u hyfforddi yn y broses hon.
lau 27 Hyd 1.30- 3.00pm	Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu	Mae datblygu ysgolion yng Nghymru fel sefydliadau sy'n dysgu yn hanfodol i gefnogi ysgolion i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru yn llwyddiannus.

		<p>Mae ymchwil yn awgrymu y gall ysgolion sy'n gweithredu fel sefydliadau sy'n dysgu ymateb yn gyflymach i amgylcheddau allanol newidiol a chofleidio newidiadau ac arloesedd. Bydd y sesiwn ddiweddar hon yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhoi gwybod i lywodraethwyr am yr hyn a olygir wrth sefydliad sy'n dysgu a sut mae'n cefnogi diwygio addysg genedlaethol ac yn datblygu arweinyddiaeth mewn ysgolion. • Archwilio model a dimensiynau Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu. • Darparu gwybodaeth am yr arolwg Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu a sut y gellir defnyddio hyn fel offeryn gwella ysgol. • Rhoi gwybodaeth i lywodraethwyr am y cymorth CCD sydd ar gael i gefnogi ysgolion i ddod yn sefydliadau sy'n dysgu.
Iau 27 Hyd 5.30- 7.00pm	Diogelu Lefel 1	Mae hwn yn gyflwyniad sylfaenol i Ddiogelu ac anogir pob llywodraethwr i fynychu i ddod yn gyfarwydd â'r maes pwysig iawn hwn.
Llun 31 Hyd	Wythnos Hanner Tymor	
Mawrth 8 Tach 5.30- 7.00pm	Recriwtio diogelach	Bydd y cwrs hwn yn canolbwyntio ar Bolisi Recriwtio Diogelach y Cyngor sy'n darparu gweithdrefnau cadarn ar gyfer recriwtio staff, gwirfoddolwyr, gweithwyr asiantaeth a chontractwyr mewn ysgolion. Bydd y sesiwn yn ymdrin â'r diffiniad o Weithgaredd Rheoleiddiedig, fel y'i diffinnir gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) a bydd hefyd yn ystyried pwysigrwydd gwiriadau diogelu cyn cyflogi eraill megis geirdaon, gwirio ffurflenni cais a chofrestru gyda chyrrff proffesiynol. Trefnwyd y sesiwn hon i sicrhau bod y llywodraethwyr hynny sy'n ymwneud ag arferion recriwtio a diogelu mewn ysgolion yn cael hyfforddiant digonol ar y polisi a'r defnydd ohono.
Merch 9 Tach 5.30- 7.00pm	Cydraddoldeb	Mae hwn yn drosolwg o Gynlluniau Cydraddoldeb Strategol mewn ysgolion. Y nod yw sicrhau bod llywodraethwyr yn fwy hyderus i hybu cydraddoldeb. Mae'r sesiwn yn cefnogi llywodraethwyr i wella cyfranogiad, ymgysylltu a chyfathrebu gyda grwpiau gwarchoddedig. Amlinellir strategaethau i gefnogi plant a phobl ifanc i oresgyn rhwystrau, fel y gallant gyrraedd eu llawn botensial. Bydd y sesiwn hon hefyd yn cyfeirio at rôl Hyrwyddwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Llywodraeth Cymru a gellir gweld gwybodaeth amdani yma
Iau 15 Tach 5.30- 7.00pm	Gofalwyr Ifanc Di-dâl: Codi ymwybyddiaeth, nodi a chefnogi	Mae gofalwyr ifanc yn blant a phobl ifanc o dan 18 oed sy'n darparu gofal a chefnogaeth i aelod o'r teulu sy'n anabl, yn sâl yn gorfforol neu'n feddyliol, neu sy'n cael ei effeithio gan gamddefnyddio sylweddau. Mae tua 1 o bob 8 person ifanc yn ofalwyr ifanc di-dâl, Amdanom Ni - Gofalu fel Gofalwr Ifanc Ymddiriedolaeth Gofalwyr .

		<p>Nod y sesiwn hyfforddi ar-lein hon yw codi ymwybyddiaeth ymhlith llywodraethwyr am ofalwyr ifanc di-dâl a hyrwyddo'r gwasanaethau sydd ar gael ym Mro Morgannwg, yn enwedig:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y Cynllun Cerdyn Adnabod Gofalwyr Ifanc - mae YMCA Caerdydd, mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol Caerdydd a Bro Morgannwg, yn cefnogi cynllun cerdyn adnabod newydd a ariennir gan Lywodraeth Cymru i helpu gofalwyr ifanc yng Nghymru i gael eu nodi, teimlo'n ddilys, a chael y gefnogaeth maen nhw'n ei haeddu. • Y Rhaglen Gofalwyr Ifanc mewn Ysgolion – dan oruchwyliaeth The Care Collective • Gofalwr Ifanc yn y Fro - hawl i ofyn am asesiad a llwybr atgyfeirio Asesiad Gofalwr (bromorgannwg.gov.uk)
Merch 16 Tach 3.00-4.00pm	Cyflwyniad i'r Pecyn Cymorth Hunanwerthuso Cyrff Llywodraethu	Mae dogfen Hunanwerthuso Cyrff Llywodraethu Consortiwm Canolbarth y De (CCD) wedi'i chynhyrchu fel offeryn i alluogi Cyrff Llywodraethu i adolygu eu perfformiad o dan wahanol feysydd llywodraethu, gyda datganiadau defnyddiol i'w cynorthwyo i wneud asesiadau cywir. Ei diben yw galluogi Cyrff Llywodraethu i wneud asesiadau cywir o ba mor dda y maen nhw'n arwain ac yn rheoli eu hysgol, mewn partneriaeth â'r Pennaeth a'r Uwch Dîm Arwain. Fe'i cynlluniwyd i fod yn ddogfen ysgafn a hawdd ei defnyddio ond ar yr un pryd mae'n galluogi Cyrff Llywodraethu i fyfyrion gywir ar eu sefyllfa ar hyn o bryd a nodi meysydd ar gyfer datblygu. Gall weithredu fel meincnod ar gyfer adolygiadau yn y dyfodol i fesur gwelliant mewn unrhyw feysydd a nodwyd i'w datblygu. Mae'r ddogfen ryngweithiol hon yn offeryn defnyddiol i'r rhai sydd am werthuso eu gwaith. Bydd y sesiwn yn caniatáu i lywodraethwyr ymgyfarwyddo â'r pecyn cymorth a chynnig awgrymiadau o ran ei weithredu.
Iau 22 Tach 5.30-7.00pm	Presenoldeb	Nod y sesiwn hon yw cynorthwyo llywodraethwyr i wybod sut i gefnogi dulliau ysgolion a'r ALI i annog presenoldeb cadarnhaol ar ôl Covid. Bydd hefyd yn ymdrin â rhai "pethau na ddylid eu gwneud" a pham yn y cylch gwaith hwn. Bydd yn edrych ar gosbau a chefnogaeth i bobl nad ydynt yn mynychu a'r croestoriad ag anghenion iechyd meddwl posibl sy'n gysylltiedig â gorbryder a ffobia a sut mae ysgolion a'r ALI yn cefnogi'r anghenion hyn. Bydd yn ymdrin â'r croestoriad â meysydd eraill fel RhCBau a materion ADY a bydd yn edrych ar lwybrau atgyfeirio ac yn cyfeirio at y rhain ac adnoddau. Bydd llywodraethwyr yn cael eu cefnogi gyda gwybodaeth am bolisiau a chanllawiau i'w galluogi i weithredu fel cyfeillion beirniadol o ran cefnogi sicrwydd ansawdd ac archwilio yn y meysydd hyn.
Iau 24 Tach 4.00-6.00pm	Rhaglen hyfforddi ragarweiniol ar gyfer llywodraethwyr	Bydd y sesiwn hon yn eich cyflwyno i ystod o sgiliau hyfforddi a strategaethau a fydd yn cyfoethogi ac yn llywio'r sgysiau rydych yn eu cael gyda'ch uwch dîm arwain ac aelodau eraill o gymuned yr ysgol. Erbyn diwedd y sesiwn bydd llywodraethwyr yn:

		<ul style="list-style-type: none"> • Deall yr hyn sy'n debyg ac yn wahanol rhwng hyfforddi a mentora • Cydnabod nodweddion llywodraethu llai effeithiol • Gallu gwrando er mwyn deall • Defnyddio sgiliau holi effeithiol • Defnyddio model hyfforddi OSCAR • Defnyddio sgiliau mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn
Llun 28 Tach 5.30- 7.00pm	Plant sy'n Derbyn Gofal	Mae hwn yn drosolwg addysgol o Blant sy'n Derbyn Gofal. Nod y sesiwn yw galluogi llywodraethwyr i fod yn Rhieni Corfforaethol gweithredol a chlywed llais y plentyn. Mae'r sesiwn yn amlinellu strategaethau i hyrwyddo cyflawniad a lles Plant sy'n Derbyn Gofal.
Iau 1 Rhag 4.00- 5.00pm	Rheoli Perfformiad i Benaethiaid	Bydd y cyflwyniad ar-lein hwn yn amlinellu'r trefniadau y mae angen eu rhoi ar waith i alluogi cyrff llywodraethu ysgolion i reoli perfformiad Penaethiaid. Dylai cyrff llywodraethu gynnwys o leiaf 2 lywodraethwr sydd wedi'u hyfforddi yn y broses hon.
Mawrth 6 Rhag 5.30- 7.00pm	Sesiwn Frifio a Diweddaru Addysg (SFDA)	Mae hwn yn gyfle i bob llywodraethwr gwrdd â Chyfarwyddwr a Phenaethiaid Gwasanaeth yr Adran Dysgu a Sgiliau a bydd y sesiwn hon yn trafod pynciau perthnasol o ddiddordeb, i'w pennu'n nes at yr amser. Argymhellir bod o leiaf 1 llywodraethwr o bob ysgol yn mynychu i glywed y diweddariad pwysig hwn.
Iau 8 Rhag 5.30- 7.00pm	Diogelu Lefel 2 LIDD	Mae'r cwrs hwn ar gyfer llywodraethwyr Diogelu Dynodedig (LIDDau) yn unig ac mae'n cwmpasu disgwyliad y rôl, yn darparu dealltwriaeth o'r Pecyn Cymorth Cadw Dysgwyr yn Ddiogel (CDDd) ac yn nodi sut i ddangos tystiolaeth o atebolrwydd i Estyn o ran ansawdd ac effeithiolrwydd pa mor ddiogel yw'r ysgol drwy ddiweddaru a gwella polisi a gweithdrefnau diogelu'r ysgol. Mae cwrs Diogelu sylfaenol ar gyfer pob llywodraethwr arall (Lefel 1) ar gael isod ar Ddydd Iau 27 Hydref.

Sesiynau hyfforddi Sefydlu gorfodol

Disgrifiad o'r cwrs

Mae hwn yn gwrs gorfodol i lywodraethwyr newydd ac mae'n rhaid ei gwblhau o fewn blwyddyn gyntaf yr apwyntiad. Bydd yn sicrhau bod gan lywodraethwyr y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen i ddechrau cyflawni eu rôl yn effeithiol i gefnogi eu hysgol i godi safonau. Mae'r rhaglen yn cynnig cyflwyniad ar:

- Rolau a chyfrifoldebau llywodraethwyr
- Cyfansoddiad cyrff llywodraethu a sut maen nhw'n gweithio
- Bod yn llywodraethwr effeithiol
- Y gwahanol adnoddau a chymorth sydd ar gael i lywodraethwyr

Dyddiad	Amser
Llun 10 Hyd	2.00-3.30pm
*Merch 12 Hyd	2.00-3.30pm
Mawrth 25 Hyd	6.00-7.30pm
Llun 7 Tach	10-11.30am
Merch 30 Tach	5.00-6.30pm

***Yn dynodi cwrs Cymraeg**

Sesiynau hyfforddi Data gorfodol

Disgrifiad o'r cwrs

Mae hwn yn gwrs gorfodol i lywodraethwyr newydd, a fydd yn rhoi dealltwriaeth iddynt o ddata perfformiad ysgolion. Bydd y sesiwn yn cynnwys:

- Ymwybyddiaeth o'r mathau o ddata sy'n cael eu defnyddio gan ysgolion a'r rôl y mae data'n ei chwarae o ran sicrhau gwelliant mewn ysgolion
- Deall sut y gall llywodraethwyr ddefnyddio data i herio'r ysgol a'i chefnogi i wella.
- Dealltwriaeth fod llywodraethwyr yn atebol am y cynnydd a wnaiff pob grŵp o ddysgwyr a sut y caiff y data hwn ei gasglu a'i ddefnyddio gan eu hysgol.
- Dealltwriaeth o'r mathau o gwestiynau y gall llywodraethwyr eu gofyn am ddata eu hysgol eu hunain

Dyddiad	Amser
Merch 5 Hyd	2.00-3.30pm
Merch 19 Hyd	4.00-5.30pm
*Merch 26 Hyd	10.00-11.30am
Llun 7 Tach	5.30-7.00pm
Merch 23 Tach	11.30am-1.00pm

***Yn dynodi cwrs Cymraeg**

Sesiynau hyfforddi Cadeirydd gorfodol

Disgrifiad o'r cwrs

Mae hwn yn gwrs gorfodol i gadeiryddion llywodraethwyr newydd. Bydd yn sicrhau bod gan y cadeirydd y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen i ddechrau cyflawni ei rôl yn effeithiol i gefnogi ei ysgol i godi safonau a chyflawni ei swyddogaethau statudol. Mae'r rhaglen yn cynnig cyflwyniad ar:

- Rôl a sgiliau'r Cadeirydd
- Perthnasoedd allweddol
- Sut i fod yn Gadeirydd effeithiol
- Ystyriaethau Covid

Mae'r sesiwn hon hefyd yn gyfle i chi ofyn unrhyw gwestiynau sy'n codi o'r hyfforddiant a'ch rôl fel cadeirydd a rhannu eich profiadau hyd yma.

Dyddiad	Amser
Iau 20 Hyd	4.00-5.30pm
Iau 10 Tach	4.30-6.00pm
*Llun 14 Tach	4.00-5.30pm

***Yn dynodi cwrs Cymraeg**